# Astudiaeth Achos Yr Hen Stablau, Machynlleth

## Cyflwyniad

Adeilad rhestredig yw'r Hen Stablau sy'n ffurfio rhan o gyfadeiladau Plas Machynlleth. Roedd yr adeilad yn rhan o stad Londonderry, tan y'i cyflwynwyd i bobl Machynlleth yn 1948 fel rhan o'r Plas. Yn wreiddiol, dyma oedd y stablau a'r coetsdy, ac bu meistr yr helfa diwethaf a'i deulu yn byw ynddo am gryn amser ond mae wedi bod yn adfail am tua 13 mlynedd.

## Yr Her

Cyngor Tref Machynlleth yw'r perchnogion, ac maent yn dymuno canfod ffordd o ddiogelu ac ailddodrefnu'r adeilad ar ran y gymuned. Nid oeddynt, fodd bynnag, yn sicr beth fyddai hyn yn ei olygu, gan gynnwys y costau a buddion. Bu mentrau blaenorol yn y Plas ei hunan yn aflwyddiannus ac yn gostus, ac oherwydd hynny, mae Cyngor y Dref ychydig yn amharod i gymryd risg. Rhan o'r her oedd i ddynodi ateb cynaliadwy o ran incwm.

## Yr Ateb

Er mwyn egluro eu meddyliau a datblygu strategaeth, cytunodd Cyngor y Dref i gomisiynu astudiaeth i asesu dichonolrwydd ailddatblygu'r adeiladu a'i reoli er budd pobl Machynlleth. Gwelwyd yr astudiaeth ddichonolrwydd fel y cam cyntaf tuag at ddod o hyd i gronfeydd i ailddatblygu'r adeilad hanesyddol hwn. Roeddynt yn awyddus i ddeall beth oedd yr opsiynau, a beth fyddai costau a buddion yr opsiwn a ffafriwyd.

## Y Budd

Mae'r astudiaeth ddichonolrwydd wedi cyflwyno eglurdeb a gosod cyfeiriad i ddatblygu'r opsiwn a ffafrir yn gynnig pendant. Mae wedi rhoi graddfa o hyder i Gyngor y Dref wrth gefnogi cam nesaf y rhaglen ddatblygu. Bydd yr astudiaeth ddichonolrwydd, ynghyd ag astudiaethau ac adroddiadau eraill a gynhelir fel rhan o'r prosiect, yn angenrheidiol er mwyn symud ymlaen gyda'r cynigion.

Mae ymgysylltu gyda'r gymuned wedi cyflwyno tystiolaeth y byddai'r opsiwn a ffafrir yn cael ei gefnogi, ar yr amod ei fod yn cyflwyno buddion cymunedol pendant o ran cynnydd mewn sŵn troed gan fusnesau lleol, graddau o ddefnydd cymunedol, ychydig o gyflogaeth i bobl leol, a chronfeydd posibl o elw i ariannu prosiectau gwella yn y dref.

Yr allbwn allweddol yw cyfres o adroddiadau cadarn. Mae'r cyfnod clo presennol a gyflwynwyd o ganlyniad i Covid-19 wedi cyfyngu ar y gallu i ymgysylltu gyda'r sylfaen

cyfranogwyr ehangach yn anffodus, er bod nifer na ellir ei fesur o bobl leol yn ymwybodol o'r prosiect trwy dudalen Facebook Cyngor y Dref, a thrwy'r taflenni a ddosbarthwyd ychydig cyn y cyfnod clo.

Mae rhwydwaith wedi'i sefydlu, fodd bynnag, a fydd yn ffurfio'r grŵp craidd o bobl i symud ymlaen gyda'r prosiect. Mae'r niferoedd rhanddeiliaid yn mynd y tu hwnt i'r targed yn llwyr, yn ddealladwy, gan mai elfen allweddol i astudiaeth o'r fath yw mewnbwn a dialog gyda chymaint o bartïon sydd â diddordeb ag sy'n bosibl.

## Y Canlyniad

Y prif ddeilliant yw bod ffordd eglur ymlaen gan Gyngor y Dref, ac y gall ddibynnu ar gefnogaeth y gymuned ehangach wrth symud y prosiect ymlaen at y cam nesaf. Canlyniad pellach yw fod rhai busnesau lleol wedi elwa o'r cyfle i gyfrannu tuag at yr astudiaeth. Y prif ganlyniad yw y bydd adeilad hanesyddol yn cael ei achub a'i ddatblygu, ac y bydd yn gweithredu er budd pobl Machynlleth.

## Deilliannau/Canlyniadau'r Prosiect

| Deilliant (Dangosydd Lefel Achos) | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer yr astudiaethau dichonolrwydd | 1 |
| Nifer y rhwydweithiau a sefydlwyd | 1 |
| Nifer y swyddi a ddiogelwyd | 0 |
| Nifer y gweithgareddau peilot a gynhaliwyd/ a gefnogwyd | 0 |
| Nifer yr hybiau cymunedol a grewyd | 0 |
| Nifer y rhanddeiliaid a gafodd eu cynnwys | 35 |
| Nifer y cyfranogwyr a gefnogwyd (digwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn unig) | 31 |

| Deilliannau | Cyflawnwyd |
|---|---|
| Nifer y swyddi a grewyd | 0 |
| Nifer y cymunedau sy'n elwa | 1 |
| Nifer y busnesau sy'n elwa | 1 |

## Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Charlie Falzon chuckenviro@gmail.com

Simon Morpeth simonmorpeth@hotmail.com

## Logos Partneriaid/ Arianwyr Cyfatebol ï

## Manylion y Prosiect

| Data Allweddol | Manylion y Prosiect |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan: | Charlie Falzon Associates |
| Dyddiad Dechrau: | 1 Tachwedd 2019 |
| Dyddiad Diwedd: | 1 Mai 2020 |
| Thema LEADER: | 2 |

## Manylion Ariannol

| Disgrifiad | Swm | % |
|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant: | £21,066.34 | 100.00% |
| Nawdd y Gronfa Datblygu Gwledig: | £15,066.34 | 71.52% |
| Nawdd Cyfatebol: | £6,000.00 | 28.48% |

Astudiaeth achos wedi'i gwblhau ar: 17/06/2020